

Atgofion Y Parch. T. Roberts, Caerdydd, am **Bob Owen Croesor**

FEL hogyn o'r Penrhyn, ni chofiaf unrhyw adeg pan nad oedd Bob Owen Croesor yn rhan o'm hymwybyddiaeth. Clywn gyfeiriadau mynych ato ar aelwyd, ysgol a chapel. Cyfeirid ato fel 'yr hen Bob Owen'. Term o anwyldeb ydoedd heb unrhyw arlliw o sarhad yn perthyn iddo.

Ond cyn pasio yr 11+ bondigrybwyll a mynd i Ysgol Ramadeg y Bermo y gwelais ac y cwrddais i â Bob Owen Croesor gyntaf. Digwyddodd hynny ar stesion y Penrhyn yn gynnar yn y bore ar fy ffordd i'r Bermo, a'r Ail Ryfel byd prin yn flwydd oed. Ni allem ni'r plant oedd wedi casglu ar y stesion y bore hwnnw fethu â sylwi ar y gŵr bychan o Groesor y clywsem gymaint o sôn amdano.

Teithio i weithio neu i wneud gwaith ymchwil

Tŷrrem ato, y gŵr bychan mewn gwisg lwydaidd, werinol a'i ddwylo wedi ystumio i gyd gan effaith y gwynegon. Syllai yntau arnom ninnau â'i lygaid byw o dan yr aeliau trwchus a dotiem at gyflymder ei barabl a chryfder ei gof. Teithio yr oedd un ai i wneud gwaith ymchwil neu i ddarlithio. Gwnâi hynny yn fynych. Gwelsom ef lawer bore oer yn tynnu potel o boced ei got gan arllwys rhai o'r tabledi i'w law chwith ac yna eu taflu i'w geg. 'Rhaid i mi eu cymryd,' dywedai 'ar gownt y gwynegon.' Ni fyddai byth yn cario bag, a holem ef am hynny. Tynnai frws dannedd o'i boced a dweud 'Dyma i gyd sydd ei angen arnai, hwn a'r ddarlith ac mae honno yn fy mhen i.' Holai yntau ninnau yn ei dro. Gofynnai a wyddwn am hwn ac arall, ac o'i enau ef y clywsom ni am rai o gymwynaswyr mawr ein cenedl nad ynganwyd gair amdanynt yn yr ysgol.

Lletya hefo Bob Owen

Tua diwedd fy nghyfnod yn yr Ysgol Ramadeg, daethwn i wybod rhywbeth amdano fel penteulu a blaenor. Roeddwn erbyn hynny yn ymgeisydd am y weinidogaeth gyda'r M.C., ac ymhlith y manau y disgwyliid i mi bregethu ar brawf ynddynt yr oedd Croesor, a threfnwyd imi letya yng nghartref Bob Owen. Ni ellid fod wedi cael gwell llety. Roedd y croeso a'r caredigrwydd yn ddi-bendraw. Un peth yn ddi-os oedd yn gwneud y cartref yn wahanol i bob cartref arall oedd nifer y llyfrau oedd yno. Nid llyfrau ar sillfoedd yn unig, ond llyfrau yn mhob twll a chornel. Roedd yn amlwg fod Bob Owen yn gasglwr heb ei fath.

Yn y prynhawn, cefais gyfle i fynd am dro gyda'r mab Owain (na chofiaf i mi ei gyfarfod byth oddi ar hynny). O fynd o gam i gam y prynhawn hwnnw a sgwrsio am bob peth dan haul, crwydrasom yn rhy bell, a bu'n rhaid brasgamu yn ôl i gyrraedd erbyn oedfa chwech. Nid oedd dim amdani ond cerdded dros orsdir a thrwy nentydd a oedd yn llawn dŵr nes bod fy nhrowsus yn wlyb domen. Wedi cyrraedd y llety, nid oedd dewis ond diosg y trowsus a benthg trowsus Bob Owen â darn o gortyn i'w ddal i fyny! Nid pawb all honni iddo wisgo trowsus Bob Owen!

Yn dilyn y fath anffawd, roeddwn yn naturiol ar bigau'r drain i gyrraedd yr oedfa mewn pryd, ond mynnai Bob Owen nad oedd brys. O'i gartref roedd Bob yng ngolwg y Capel a chadwai lygaid barcud ar bawb yn mynd yno. Yn sydyn clywais ef yn gweiddi fod yr olaf wedi cyrraedd y Capel. 'Gallwn fyd yn awr,' meddai wrthyf, 'mae'n bwysig fod y gynulleidfa yn disgwyl y pregethwr, ac



Bob Owen yn cael sgwrs hefo T. E. Nicholas.

nid fel arall, y pregethwr yn disgwyl y gynulleidfa,' ac i ffordd â ni.

Bon Owen yn flaenor ffyddlon a gweithgar
Er fod trowsus Bob Owen amdanaf, pregeth digon tila a draddodais y noson honno, ond gyda'i eiriau o anogaeth a chanmoliaeth hael, gwnaeth y gwron o Groesor i mi deimlo 'mod i wedi traddodi pregeth Sasiwn a phasio'r prawf gydag anrhydedd.

Bu Bob Owen yn flaenor ffyddlon a gweithgar, ond ni ellid dweud ei fod yn ffitio'r ddelwedd o flaenor y dyddiau hynny gant y cant. Credai rhai ei fod yn rhy barod ei dafod, yn rhy ddeifiol ei feirniadaeth ar brydiau, ac nad allai osgoi yngan llw neu reg ambell dro.

Cofiaf ei weld mewn Henaduriaeth un tro gyda nifer o flaenoriaid eraill yn cael eu holi gan y diweddar D. Perry Jones. Holai beth oeddech yn ei feddwl o'r rhegfeydd oedd wedi mynd yn gyffredin yn y wlad. Pan ddaeth tro Bob Owen i ymateb, cododd ar ei draed, estynnodd ei law i fyny ac meddai. 'Fedra i ddeud wrthoch chi na chymerais 'rriod enw'r Iesu yn ofer. Rwy'n cofio teithio ar y bys o Gaernafon. Roedd yna griw o hogia a genod ifanc yn y cefn yn tyngu a rhegi ac yn cymryd enw'r Iesu yn ofer. Fe godais i,' meddai, 'ac es atyn nhw a deud wrthyn nhw nad oeddwn i ddim am eu clywad yn cymryd enw'r Iesu yn ofer.' Lloriodd yr holwr y dwthwn hwnnw, ac ni chredaf i neb fentro codi'r cwestiwn wedyn.

Erys brith gof hefyd amdano fel

gwleidydd. Cynhelid cyfarfod gwleidyddol yn Neuadd y Pentref. Rwy'n cofio gwrando ar Gwynfor Evans yno fel ymgeisydd Seneddol Meirionnydd, a Bob Owen yn cadeirio'r cyfarfod iddo. Gwaith pennaf y cadeirydd y noson honno oedd braenaru'r tir cyn i Gwynfor gyrraedd, ac âi Bob Owen ati gydag arddeliad. Areithiai'n gryf ac ymfflamychol gan ddefnyddio ei ddwylo, ei ben a'i draed weithiau i danlinellu ei neges. Dotiem at ei barabl llythrig a'i gof anhygoel. Gwefreiddiol yn wir. Roedd yn dda fod gŵr o faintioli Gwynfor yn ei ddilyn neu fe fyddai Bob Owen wedi cipio ei goron.

Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, cefais y fraint o'i groesawu i ddarlithio mewn capel yn un o'm gofalaethau cyntaf. Synnais weld fod nodiadau ganddo y noson honno, nodiadau ar bapur a oedd wedi melynau llawer o ôl bysedd arno. Bu'n byseddu'r tudalennau ond ni chredaf iddo edrych arnynt o gwbl, ac er i ambell un y noson honno wfftio at hynny, ac ar yr olwg anniben oedd arno, yr oedd y mwyafrif oedd yn bresennol wedi gwirioni arno, gan ddotio at ei gof anhygoel, ei barabl llythrig a'i hiwmor iach.

Trueni na fyddai cof Bob Owen gennyf. Rwyf wedi dibynnu yn gyfangwbl ar fy nghof egwan i gyflwyno, ar gais y golygydd, y tusw bychan uchod i gofio Bob Owen. Yn sicr, gadawodd waddol enfawr ar ei ôl, a bydd pob Cymro yn ddyledus iddo dros byth.

Colli John Roberts Williams

Trist oedd clywed am farwolaeth John Roberts Williams. Bu ei gyfraniad i Gymru yn fawr. Ef a ysgwyddodd olygyddiaeth *Y Casglwr* am un mlynedd ar bymtheg. Roedd wastad yn barod ei gyngor imi fel Golygydd. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu yn eu galar.
(Bydd teyrnged lawn iddo yn y rhifyn nesaf).